## COFNODION

**Dyddiad** 14 Tachwedd 02
**Amser** 9.00 – 12.30am
**Lleoliad** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

### Yn bresennol

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Mick Bates | Maldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| Ron Davies | Caerffili |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| David Ian Jones | Gogledd Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

### Swyddogion

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Yr Adran Datblygu Economaidd |
| Emyr Roberts | Yr Is-adran Polisi Economaidd |
| John Clarke | Prif Weithredwr, WEFO |
| Caroline Turner | WEFO |
| Phil Gray | WEFO |
| Sheila Maxwell | WEFO |
| David Howarth | WEFO |

### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| David Rosser | Cyfarwyddwr, CBI Cymru |
| Amanda Wilkinson | CBI Cymru |
| Jake Chapman | Ymgynghorydd Arbennig ar y Polisi Ynni |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant.**

1. Yn dilyn penderfyniad diweddar yn y Cyfarfod Llawn atgoffwyd aelodau'r Pwyllgor gan y Cadeirydd mai'r unig adeg yr oedd angen iddynt ddatgan buddiant ydoedd pan oedd y buddiant yn berthnasol i eitem benodol. Yn ystod y cyfarfod cafwyd datganiadau o fuddiant gan Dafydd Wigley, sy'n Gadeirydd Bwrdd Cynghori Ysgol Fusnes a Datblygu Gwledig Prifysgol Bangor, yn Llywydd Hufenfa De Arfon ac yn ddarpar Gadeirydd Ymddiriedolaeth Hybu Gwyddoniaeth Cyf, a chan Phil Williams sydd ynghlwm wrth gais Amcan 1 ym Mhrifysgol Aberystwyth.

**Eitem 2: Adroddiad Chwarterol ar y Cronfeydd Strwythurol.**

**EDC 14-02 (p7)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y papur drwy gyfeirio at y cynnydd sylweddol a wnaed o dan raglenni Amcan 1 ac Amcan 3, gyda chynigion y rhaglenni yn gyson â'r targedau. Nododd bod rhaglen Amcan 2 yn arafach. Cyfeiriodd John Clarke at y cyfarfod o Bwyllgor Monitro'r Rhaglen Amcan 2 a gynhaliwyd yn ddiweddar a'r camau yr oeddent yn eu cymryd mewn ymgais i gyflymu'r broses a sicrhau cymaint o ymrwymiad o ran arian â phosibl.
2. Cyfeiriwyd at adroddiad diweddar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r gwahanol argymhellion a wnaethpwyd ynddo. Dywedodd John Clarke bod yr argymhellion yn cael eu hystyried. Dywedodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor Archwilio yn ystyried y mater a byddai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn cael cyfle i drafod y mater maes o law.
3. Gofynnodd un o'r Aelodau ynghylch prosiectau Prifysgol Bangor a'r anghysondeb ymddangosiadol gan WEFO wrth ddelio â'r gwariant ar orbenion. Mynegwyd pryder bod WEFO, pan gyflwynwyd y prosiectau, wedi derbyn y dull o gyfrif gorbenion, ond ers i'r prosiectau gychwyn ac i arian gael ei wario, roedd WEFO'n ystyried bod y dull yn annerbyniol. Dywedodd y swyddogion bod hwn yn fater cymhleth a'u bod wedi dilyn y rheolau a osodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn ofalus iawn. Yr oedd y rheolau yn caniatau bod ceisiadau yn cael eu cymeradwyo ar sail yr amcanbrisiau gorau ond bod rhaid seilio unrhyw gostau gwariant ar ôl hynny ar ddulliau costio a oedd yn dderbyniol gan y Comisiwn Ewropeaidd. Yr oedd WEFO wedi dweud wrth Brifysgol Bangor nifer o weithiau nad oedd eu dull hwy o gyfrif y gorbenion yn dderbyniol at dibenion hawlio. Roeddent wedi cynnal nifer o drafodaethau gyda'r Brifysgol ac yr oeddent yn cydymdeimlo â'u sefyllfa.

Er hynny, nid oedd y Comisiwn Ewropeaidd yn fodlon derbyn dulliau Bangor er y byddai WEFO yn gofyn i archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd am farn arall ar frys.

4. Dywedodd y swyddogion mai'r prif reswm am y problemau hyn oedd bod Prifysgol Bangor wedi newid ei ddull o gyfri'r gorbenion o ddull a oedd yn seiliedig ar oriau buddiolwyr i ddull sy'n seiliedig ar gostau cyflogau. Cadarnhawyd nad oedd y problemau'n berthnasol i brosiectau gan brifysgolion eraill.
5. Wrth gloi'r rhan hon o'r drafodaeth, dywedodd y Cadeirydd bod y mater yn un o'r pwys mwyaf a mynegodd ei gobaith y gallai'r Gweinidog wneud pob dim o fewn ei allu i'w ddatrys. Cytunodd y Gweinidog i roi digon o wybodaeth i'r Pwyllgor ar hynt y mater. **[Gweithredu: Gweinidog DE].**
6. Pwysleisiodd un aelod bod yr arian Ewropeaidd sy'n cael ei neilltuo i'r holl raglenni Ewropeaidd lawer llai na'r Dyraniadau Ariannol Amcanol y cytunwyd arnynt yn y Ddogfen Raglen Sengl. Oni cheuir y bwlch hwn yn y dyfodol agos, byddai'n rhaid datymrwymo cyfran helaeth ohono ar ddiwedd 2004.
7. Cafwyd trafodaeth ar yr angen i grwpiau cymunedol gadw tystiolaeth o arian cyfatebol cyhoeddus gwerth 10% ar gyfer prosiectau o dan raglenni Amcan 1. Dywedodd y swyddogion bod disgwyl i'r ymgeiswyr wneud cymaint ag y gallent er mwyn derbyn yr arian cyfatebol hwn, er byddai modd anwybyddu'r gofyniad petai angen. Byddai pob achos yn cael ei gloriannu yn ôl ei rinweddau. Byddai'r canllawiau diwygiedig a oedd yn trafod y mater hwn ar gael maes o law a chytunwyd i'r cais gan y Cadeirydd bod aelodau'r Pwyllgor yn derbyn copi cyn ei gyhoeddi. **[Gweithredu: John Clarke]**.
8. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o farchnata rhaglen Amcan 2 a chroesawyd y newidiadau y cyfeiriwyd atynt gan y Gweinidog. Dywedodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor wedi derbyn tabl o ffynonellau arian cyfatebol beth amser yn ôl a gofynnodd a fyddai modd diweddaru'r tabl. Cytunodd y Gweinidog i drefnu bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau. **[Gweithredu: Gweinidog DE].**
9. Cyfeiriwyd at y gwerthusiad canol tymor a mynegwyd pryder bod y contractau wedi eu rhoi i grwpiau yng Nghaerdydd. Cadarnhaodd y swyddogion eu bod wedi eu rhoi yn unol â'r rheolau a luniwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mynegwyd pryder hefyd bod yr holl waith wedi mynd at y sector cyhoeddus ac y byddai hynny'n atgyfnerthu'r pryderon na fyddai'r sector preifat ynghlwm wrth raglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'n gallu darparu papur ar y broses werthuso ac ymatebodd drwy ddweud bod papur tebyg wedi ei baratoi ar gyfer cyfarfod y Cyngor Partneriaeth Busnes. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw byddai'r papur ar gael ar gyfer y Pwyllgor hwn. **[Gweithredu: Gweinidog DE].**
10. Mynegwyd pryder hefyd mai dim ond un hyrwyddwr o'r sector preifat oedd wedi'i benodi i swydd. Cytunodd y Gweinidog bod hyn yn siomedig ond dywedodd mai mater i'r sector preifat oedd hi i benderfynu a oeddent yn mynd i gyflwyno ceisiadau am y swyddi hyrwyddo ychwanegol. Roedd gan Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru rôl i roi cymorth i fusnesau/undebau llafur fod yn rhan o'r gwaith o reoli'r rhaglenni ac yr oedd yn derbyn £200,000 y flwyddyn.
11. Cytunodd y Swyddogion bod y lefel yr ymrwymiad ym Mlaenoriaeth 3 o Amcan

Un yn brin o'r dyraniad dangosol ond dywedodd y dylai'r ceisiadau am grantiau a oedd ar y gweill wella'r sefyllfa yn ystod hanner cyntaf 2003. Pwysleisiodd y swyddogion y gwaith yr oeddent hwy a'u partneriaid yn ei wneud er mwyn marchnata'r cronfeydd hyn a sicrhau eu bod o fewn cyrraedd. Nodwyd nad oedd y wybodaeth a dderbyniwyd yn cyfrif y ceisiadau a oedd "ar y gweill".

12. Cyfeiriwyd at y ffaith bod Prifysgol Caerdydd yn derbyn llawer iawn o arian Amcan 1 er nad oedd wedi ei leoli mewn ardal Amcan 1. Dywedodd y swyddogion bod rheolau'r cynllun yn caniatáu bod prosiectau yn cael eu harwain, neu eu cydlynu mewn unrhyw leoliad ar yr amod mai ardaloedd Amcan 1 oedd yn elwa. Serch hynny, yr oeddent yn cyfaddef mai tasg anodd iawn oedd mesur lle yn union yr oedd arian yn cael ei wario ar brosiect. Dywedodd y swyddogion y byddai WEFO yn cyhoeddi yn ystod yr wythnos ganlynol rhai rhagamcanion i nodi lleoliad y rhai oedd yn elwa ar arian Amcan 1. Mynegwyd pryder hefyd bod Prifysgol Caerdydd yn un o brif dderbynwyr arian Amcan 1 a'i fod hefyd yn bartner ar gyfer gwerthuso'r cynlluniau. Dywedodd y swyddogion mai dim ond un aelod o'r consortia sy'n gwneud y gwaith gwerthuso yw Prifysgol Caerdydd ac mai rhan wahanol o'r Brifysgol oedd yn gwneud y ceisiadau. Yn ogystal, fe fyddai yna weithdrefnau cadarn i reoli ansawdd er mwyn sicrhau bod modd olrhain yr holl argymhellion yn ôl i'r data gwreiddiol. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn gobeithio y byddai'r Pwyllgor Archwilio yn trafod y mater rywbryd.
13. Nodwyd bod gormod o amser yn cael ei dreulio ar ryddhau arian yn hytrach nag ar y materion pwysicach, sef bod yr allbynnau, er enghraifft creu swyddi, yn cael eu cyflawni. Cytunodd yr swyddogion i ddarparu tabl syml yn dangos lefelau'r adnoddau a glustnodwyd, y rhagolygon o ran swyddi a'r swyddi a grewyd hyd yn hyn o ganlyniad i bob prosiect a gefnogwyd. Byddai'r wybodaeth yn cael ei ddarparu ar gyfer bob un o'r tua 600 prosiect. **[Gweithredu: John Clarke]**

**Eitem 3: Adroddiad misol y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**

**EDC 15-02(p1)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad gyda chrynodeb llafar o'r datblygiadau diweddaraf yr amgaeir copi ohono fel atodiad i'w adroddiad.
2. Cwestiynodd yr aelodau rai o'r newidiadau i gyllideb derfynol Datblygu Economaidd a nodwyd yn adroddiad y Gweinidog. Mewn perthynas â'r cynnydd mewn derbyniadau cyfalaf ar gyfer Awdurdod Datblygu Cymru dywedodd y Gweinidog bod yr Awdurdod yn adolygu ei bortffolio eiddo yn rheolaidd ac y byddai'n manteisio ar y cyfleoedd i werthu asedau wrth iddynt godi. Gwnaeth un o'r aelodau ddatgan pryder bod Awdurdod Datblygu Cymru yn ymddangos fel pe bai'n gwerthu'i asedau heb roi unrhyw ystyriaeth i oblygiadau cymdeithasol. Dywedodd y Gweinidog bod rhaid i Awdurdod Datblygu Cymru wneud penderfyniadau masnachol ond awgrymodd y gallai'r Pwyllgor godi'r mater gyda'r Awdurdod yn ystod y broses graffu reolaidd ar ei weithgareddau.

3. Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod wedi uno cyllidebau RSA ac AIG er mwyn caniatau mwy o hyblygrwydd o fewn y cynlluniau ond byddai yn parhau i roi adroddiad ar wahân arnynt i'r Pwyllgor. Credai y byddai hyn yn gwneud pethau'n fwy tryloyw, yn hytrach nag yn llai tryloyw fel yr awgrymwyd. Cadarnhaodd hefyd bod yr £800,000 a glustnodwyd yn y gyllideb ddrafft ar gyfer rheoli Band Eang Cymru wedi ei symud er mwyn talu costau rhedeg y rhaglen.
4. Mewn perthynas â band eang, cytunodd yr aelodau eu bod yn dymuno gwahodd BT i gyfarfod yn y dyfodol i sôn am y darpariaethau yr oeddent yn eu gwneud er mwyn sicrhau bod Cymru yn gallu cynnig mwy o fynediad i fand eang. Mynegwyd pryderon hefyd nad oedd y gwasanaeth lloeren ar gyfer band eang yn effeithiol a theimlai'r aelodau bod angen gwerthuso'r gwasanaeth. Croesawyd yr awgrym gan y Gweinidog a dywedodd bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi mewn band eang er mwyn gwneud iawn am fethiannau yn y farchnad. Teimlai petai'r ddarpariaeth yng Nghymru yn ddibynnol ar y farchnad yn unig ,yna byddai Cymru o dan anfantais. **[Gweithredu: Clerc]**
5. Mynegwyd peth pryder nad oedd polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â band eang yn gwbl glir ac er bod yr aelodau wedi derbyn gwybodaeth fanwl ar y gyllideb nid oeddent yn glir ynghylch manylion polisïau'r Gweinidog. Gofynnwyd yn bennaf am drafodaeth ar gyflwyno'r dechnoleg a sicrhad bod y gyllideb yn cael ei defnyddio i sicrhau gweithgareddau'r dyfodol. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu papur a thynnodd sylw'r aelodau at wefan Band Eang Cymru a oedd hefyd yn darparu gwybodaeth fanwl. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
6. Croesawodd yr Aelodau y cyhoeddiad diweddar ynghylch ariannu'r prosiect twristiaeth Bluestone yng Ngorllewin Cymru. Serch hynny, cwestiynwyd yr egwyddor o gyhoeddi'r grant cyn gwneud y penderfyniadau cynllunio a mynegwyd pryder y byddai'n dylanwadu ar y broses gynllunio, beth bynnag fo'i fwriad. Dywedodd y Gweinidog ei fod wastad yn sicrhau gyda datganiadau tebyg i hwn ei fod yn nodi'n gwbl glir eu bod wedi eu gwneud heb unrhyw ragfarn o gwbl.
7. Wrth ymateb i gwestiynau mewn perthynas ag ailstrwythuro'r BTA dywedodd y Gweinidog ei fod yn teimlo bod hyn wedi cryfhau'r atebolrwydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Awgrymodd y Cadeirydd efallai yr hoffai'r aelodau drafod safbwynt Bwrdd Croeso Cymru ar y newidiadau pan fyddent yn bresennol yn un o gyfarfodydd y pwyllgor yn ddiweddarach yn ystod y tymor.
8. Mewn ymateb i'r datganiad cadarnhaol ar ystadegau'r gweithlu gan y Gweinidog yn ei grynodeb llafar o'r datblygiadau diweddaraf, dywedodd un o'r aelodau nad oedd rhai o'r dangosyddion eraill mor galonogol. Er enghraifft yr oedd yr Oxford Economic Forecasting Group yn nodi mai Cymru oedd yr ardal fwyaf araf o ran tyfiant ymhlith ardaloedd y DU. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n well ganddo ganolbwyntio ar yr hyn sydd yn digwydd yn hytrach na dibynnu ar ragolygon ansawdd newidiol.
9. Nododd un o'r aelodau ei bod yn ymddangos bod y cydbwysedd rhwng y rhywiau yn anghyfartal yn aelodaeth y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen y soniwyd amdanynt yn adroddiad y Gweinidog. Dywedodd y Gweinidog mai'r rhanddeiliaid oedd yn

gyfrifol am yr enwebiadau ac nid Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Eitem 4: Cynllun Gweithredu: Arloesedd**

**EDC 15-02(p2)**

1. Oherwydd prinder amser, cynigiodd y Cadeirydd bod y drafodaeth ar y papur hwn yn cael ei gohirio.

**Eitem 5:Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)**

**EDC 15-02(p3)**

1. Cyflwynodd David Rosser ei bapur a rhoddodd grynodeb byr o'r sialensiau a oedd yn wynebu ei aelodau ar hyn o bryd. Dywedodd fod y perfformiad yn parhau i amrywio wrth i'r cwmnïau hynny oedd yn agored i farchnadoedd y byd wynebu trafferthion tra bod y cwmnïau hynny oedd yn seiliedig ar brynwyr yn parhau i wynebu galw mawr am eu nwyddau. Yr oedd pryder mawr ymysg aelodau'r CBI mewn perthynas â phwysau mawr oedd arnynt o ganlyniad i drethi. Cynyddodd hyn o ganlyniad i gyflwyno'r Dreth Newid Hinsawdd a'r cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol.
2. Mewn arolwg diweddar o aelodau'r CBI teimlwyd bod pawb bellach yn derbyn ei bod hi'n anochel y bydd y Llywodraeth yn lleihau'r sector cynhyrchu ac mai'r diwydiannau technolegol fyddai'n derbyn y gefnogaeth fwyaf. Gwelwyd yn yr arolwg hefyd bod yna gefnogaeth i'r drefn ddatganoli bresennol a bod cysylltiad cryf rhwng aelodau'r CBI ac Aelodau'r Cynulliad. Er hynny, dywedodd y mwyafrif nad oedd y Cynulliad yn cael ei ystyried yn sefydliad a oedd yn helpu busnesau. Roedd y CBI yn croesawu'r cynllun diweddar i sefydlu Ardaloedd Gwella Busnes ond yr oeddent yn pryderu oherwydd nad oedd proses bendant o ran ei weithredu i'w gweld yn amlwg. Fe wnaethant annog y Pwyllgor i ystyried ffyrdd o ddylanwadu'n well ar waith adrannau eraill o fewn y Cynulliad.
3. Dywedodd David Rosser, mewn ymateb i gwestiwn gan un o'r aelodau, yr ymddangosai fod yna ormod o fentrau i gefnogi busnesau yng Nghymru a bod cymhlethdod mewn perthynas â'r gwahaniaeth rhwng cyngor busnes, a oedd yn ei farn ef yn aneffeithiol, a dulliau eraill o gefnogi. Nodwyd bod canlyniadau'r Adolygiad o Gefnogaeth i Fusnes yn parhau'n aneglur i rai busnesau ac atgoffwyd y swyddogion gan y Cadeirydd o gais cynharach y Pwyllgor i weld tabl yn amlinellu'r gefnogaeth oedd ar gael i fusnesau oddi wrth y Cynulliad ac asiantaethau eraill.
4. Nid oedd yn teimlo bod mynediad i farchnadoedd y DU yn fater i gwmnïau Cymru ond cytunodd bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru godi proffil Cymru yn y DU a thramor. Cytunwyd bod gan WTI rôl pwysig i'w chwarae yn hyn o beth, a

theimlid bod eu strategaeth yn gam pwysig ymlaen.

5. Cytunodd David Rosser gydag awgrym un o'r aelodau y dylai fod yna berson dynodedig yn llysgenadaethau Prydain mewn gwledydd tramor i ddelio â materion Cymreig ac i weithredu fel cyswllt i fusnesau Cymreig.
6. Mewn perthynas â phremiymau yswiriant uwch i fusnesau, dywedodd David Rosser nad oedd unrhyw dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i brofi eu bod yn achosi i gwmnïau fethu. Serch hynny, pwysleisiodd fod y CBI yn gofyn i'r Canghellor ystyried trosglwyddo'r arian a ddaw o ganlyniad i'r dreth ar bremiymau yswiriant yn ôl oherwydd byddai hyn yn gwella'r sefyllfa i fusnesau.
7. Yr oedd y CBI yn pryderu nad oedd busnesau'r DU bob amser yn cael chwarae teg o ran pwysau ariannol a rheoliadol ychwanegol a soniodd am rwymedigaethau Kyoto fel enghraifft, gan esbonio na fyddai'r ffïoedd yn cael eu cyflwyno yn Ewrop hyd 2006/07. Fel arfer mae'r rheoliadau yn cychwyn yn Ewrop ac yr oedd yn holl bwysig nad oedd unrhyw beth yn cael ei ychwanegu atynt unwaith iddynt gyrraedd lefel Cymru.
8. Mewn perthynas â chynyddu cyfraddau cynhyrchu, dywedodd y CBI eu bod wedi bod yn gweithio gyda'r Adran Fasnach a Diwydiant ar raglenni arferion gorau a rhoddwyd enghreifftiau o gwmnïau a oedd wedi trawsnewid eu perfformiad gan felly wella'u gallu i gystadlu. Byddai'r rhaglenni arferion gorau hyn yn rhan o'r gwaith ar bartneriaethau'r gweithle. Yr oedd y Gweinidog yn falch o glywed bod y CBI wedi cymryd rhan a dywedodd bod Sbardun Cymru yn enghraifft dda o sut y gall y sector cyhoeddus a'r sector preifat gydweithio. Awgrymodd y gallai cynyddu cynhyrchiant fod yn faes y gallai'r Pwyllgor edrych arno yn y dyfodol.
9. Yr oedd David Rosser yn falch iawn bod yna 34 o brosiectau busnes Amcan 1 ar hyn o bryd ond holodd a oedd yna dystiolaeth fod galw am nifer o'r rhain o du'r farchnad, a sawl un ohonynt fyddai'n creu rhagor o swyddi. Dywedodd yr hoffai weld mwy o hyblygrwydd wrth drosglwyddo arian rhwng y mesurau yn yr adolygiad canol tymor. Galwodd am fwy o arian i brosiectau seilwaith a phrosiectau a oedd yn cyflawni yn nhermau sgiliau ac arloesi, a llai o arian i gefnogi busnes. Gofynnodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru rhoi pwysau mawr ar y mater hwn yn ystod eu trafodaethau gyda Ewrop.
10. Mewn perthynas â thrafnidiaeth dywedodd bod Aelodau CBI wedi galw am fwy o gysylltiadau rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin yng Ngogledd a De Cymru ond mai ychydig o alw oedd yna am well cysylltiadau rhwng y Gogledd a'r De.
11. Mewn perthynas â Chyllid Cymru, dywedodd bod yna gamsyniad ynglyn â'r hyn yr oeddent yn gallu ei wneud a'i bod yn holl bwysig nad oedd Cyllid Cymru yn cael ei farchnata fel ateb i'r holl broblemau. Yr oedd y CBI wedi ymrwymo i weld Cyllid Cymru yn llwyddo ac yr oeddent yn parhau i gydweithio ar faterion yn ymwneud â chyflawni.
12. Tra'n cydnabod yr effaith y gallai adnoddau ymchwil a datblygu ei chael ar economi Cymru, dywedodd David Rosser ei bod yn angenrheidiol ein bod yn deall bod cwmnïau yn aml iawn mewn sefyllfa o fidio cystadleuol gyda chwmnïau o'u grp eu hunain. Byddai credydau trethi wastad yn chwarae rôl pwysig wrth

benderfynu lle byddai'r adnoddau hyn wedi eu lleoli.

**Eitem 6: Adolygiad Ynni - drafft o'r adroddiad terfynol ar Effeithlonrwydd Ynni**

**EDC 15-02(p4)**

1. Cytunodd yr aelodau y dylid cyhoeddi'r adroddiad a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghori. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch cyfanswm y gost o wella'r insiwleiddio mewn hen gartrefi a rhai newydd; gofynnodd un arall a oedd nifer y sefydliadau a oedd ynghlwm wrth hyrwyddo effeithlonrwydd ynni yn gymhleth. Awgrymwyd efallai y gellid ystyried y ddau gwestiwn hwn yn y broses ymgynghori - efallai drwy lythyr gan y Cadeirydd yn gwahodd sylwadau.

**Eitem 7: Adolygiad Ynni - adroddiad terfynol Ynni Adnewyddadwy**

**EDC 15-02(p5)**

1. Cytunwyd i gyhoeddi'r adroddiad fel ag yr oedd yn amodol ar y newidiadau canlynol:

- Dylid cyfuno Adran 4 a 5 er mwyn ei wneud yn fwy eglur.
- Dylid ailddrafftio paragraffau 3.10 a 3.14 er mwyn adlewyrchu'r pwyntiau a wnaed gan yr RSPB.
- Paragraff 5.9: Dylid cyfeirio at feincnod o 4TWh fel canran o gynhyrchiant Cymru.
- Er bod yr adroddiad yn nodi targed ar gyfer 2010 dylai hefyd gyfeirio at yr hyn fyddai'n digwydd rhwng yr adeg honno a'r dyhead i weld 'system drydan ddi-garbon' erbyn 2050.
- Adran 7, yr ail baragraff, y frawddeg olaf. Cytunwyd y dylai hwn orffen ar ôl "tua 200 o dyrbinau ychwanegol". Teimlai’r mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor nad oedd angen y geiriau olaf a bod risg y gallent ymyrryd â materion a ystyriwyd yn y broses gynllunio. Teimlai Alun Cairns nad oedd angen newid y frawddeg wreiddiol.

2. I gloi'r drafodaeth, cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd angen i'r Pwyllgor gynnwys argymhelliad ffurfiol y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymateb i'r adroddiad gan y byddai hyn yn llifo'n naturiol o'r drafodaeth yn y cyfarfod llawn yn gynnar ym mis Ionawr. Llongyfarchodd y Pwyllgor longyfarch y clerc a'r ymgynghorydd arbennig ar adroddiad cytbwys ar y broses ymgynghori.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**EDC 14-02 Cofnodion (Drafft)**

**EDC 15-02 Camau heb eu cymryd eto**

1. 17 Hydref, 2.16 - Cytunodd y Gweinidog i roi dyddiad ar gyfer yr adroddiad hwn.
2. 31 Hydref, 2.12 - Dywedodd y Gweinidog ei fod ef, y Cadeirydd a'r swyddogion wedi trafod y mater a gobeithiwyd y golygai gwell cyfathrebu bod y Pwyllgor yn cael gwybodaeth o flaen llaw am brif bolisïau oedd ar fin cael eu cwblhau neu ar fin cychwyn y broses ymgynghori. Fodd bynnag, er na theimlai ei fod yn briodol rhoi sicrwydd y byddai hyn yn digwydd ym mhob achos, dywedodd ei fod yn disgwyl iddo ddigwydd yn achos pob cyhoeddiad polisi o bwys.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**